Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: Canllaw i Ddysgwyr

Awst 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: Canllaw i Ddysgwyr

**Pwrpas y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yw sicrhau y gallwch chi, fel dysgwr*, gael eich clywed a'ch cymryd o ddifrif mewn penderfyniadau am eich addysg.**

Medr yw'r sefydliad sy'n goruchwylio addysg drydyddol* yng Nghymru. Rrydym wedi datblygu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr y mae'n rhaid i'ch darparydd* ei ddilyn.

## Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn golygu...

### Y gallwch chi

- gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir gan eich darparydd
- gael cynrychiolaeth o'ch barn
- rhannu'r hyn rydych chi'n ei feddwl o'ch profiad dysgu, ac unrhyw beth sy'n effeithio arnoch chi fel dysgwr
- helpu i lunio penderfyniadau — nid rhoi adborth yn unig

### Byddwch chi

- yn cael gwrandawiad, ac yn cael eich cymryd o ddifri
- yn gallu rhannu eich barn yn rhwydd, ac yn gyfforddus
- yn gallu gweld sut y gall eich barn arwain at newidiadau go iawn
- yn cyfrannu at adolygu a gwella'r profiad dysgu

### Rhaid i'ch darparydd

- weithio gyda dysgwyr
- gweithio mewn partneriaeth â grwpiau dysgwyr (fel undebau myfyrwyr neu gynghorau)
- creu ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr
- adolygu hwnnw bob blwyddyn gyda'r dysgwyr
- dangos beth sydd wedi newid oherwydd mewnbwn dysgwyr
- cynnwys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau - nid casglu adborth yn unig

### Bydd Medr

- yn edrych ar eich ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr
- yn adolygu enghreifftiau o'r modd y mae ymgysylltu â dysgwyr wedi gwneud gwahaniaeth
- yn gwrando ar eich barn o arolygon a chan gynrychiolwyr
- yn gwrando ar sefydliadau sy'n gwirio ansawdd addysg (e.e. Estyn a'r ASA)
- ystyried unrhyw bryderon a godir gyda ni ynghylch ymgysylltu â dysgwyr

Os nad yw rhywbeth yn gweithio, gall Medr ei gwneud yn ofynnol i'ch darparydd gyflwyno newidiadau. Byddwn yn rhoi arweiniad, adnoddau a chefnogaeth i'w helpu i wella.

Lle bo pethau'n gweithio'n dda, byddwn yn rhannu enghreifftiau o arfer da ledled Cymru er mwyn creu profiadau dysgu gwell i bawb.

## Yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, mae'n ofynnol i ymgysylltiad â dysgwyr:

- **Fod wedi'i wreiddio** – mae'n rhan arferol o wneud penderfyniadau
- **Cael ei werthfawrogi** – rydych chi'n teimlo eich bod yn cael gwrandawiad
- **Cael ei ddeall** – rydych chi'n gwybod sut i fynegi eich barn
- **Bod yn gynhwysol** – gall pawb gymryd rhan
- **Bod yn ddwyieithog**– gallwch ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg
- **Bod yn Unigol ac yn Gyfunol**– gallwch siarad drosoch chi'ch hun neu drwy gynrychiolwyr
- **Bod yn effeithiol**– rydych chi'n gweld newid go iawn
- **Cael digon o adnoddau**– rydych chi'n cael cefnogaeth i gymryd rhan
- **Cael ei werthuso**– caiff pethau eu hadolygu a'u gwella

## Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn berthnasol i…

- Golegau
- Prifysgolion
- Darparwyr hyfforddiant prentisiaeth
- Dysgu oedolion yn y gymuned
- Y chweched dosbarth mewn ysgolion

## Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr o fudd i chi drwy…

- Brofiad dysgu gwell sy'n adlewyrchu eich anghenion
- Rhoi mwy o gyfleoedd i feithrin sgiliau a hyder
- Cysylltiadau cryfach ac ymdeimlad o berthyn
- Cyfleoedd i godi llais gyda'ch gilydd
- Gwelliannau sydd o fudd i ddysgwyr y presennol a'r dyfodol

## Gallech gymryd rhan drwy...

- Arolygon
- Ffurflenni adborth

- Cysylltu â'ch athro/athrawes, tiwtor neu fentor
- Siarad â chynrychiolydd dysgwyr neu ddod yn gynrychiolydd dysgwyr
- Ymuno â chyngor dysgwyr neu undeb myfyrwyr
- Cyfrannu at gyfarfodydd, fforymau neu grwpiau ffocws (yn y cnawd neu ar-lein)

## Y mathau o benderfyniadau y gallech chi ddylanwadu arnynt ar eich rhan chi'ch hun a dysgwyr eraill…

### Cynllun a darpariaeth dysgu

- Pa gyrsiau/hyfforddiant a gynigir, a sut maen nhw wedi'u cynllunio, eu cyflwyno a'u hasesu
- Dysgu hyblyg, hygyrch sy'n addas i wahanol anghenion
- Amseriad, lleoliad, a threfniadau dysgu a lleoliadau (yn y gwaith/i ffwrdd o'r gwaith)

### Yr amgylchedd dysgu a'r adnoddau

- Ansawdd mannau dysgu ar-lein a ffisegol
- Mynediad at offer a deunyddiau addas (e.e. llyfrau, meddalwedd, pecynnau arbenigol)
- Profi a defnyddio systemau dysgu (e.e. e-bortffolios)

### Profiadau a disgwyliadau’r dysgwr

- Gwisg/cod gwisg a'r defnydd o ffôn clyfar
- Cyfleoedd yn y Gymraeg
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am newidiadau i sesiynau

### Adborth, llais a chynrychiolaeth

- Ffyrdd o roi adborth (gan gynnwys yn ddienw)
- Sut rydych chi'n cael eich cynrychioli mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau
- Sicrhau bod adborth yn cael gwrandawiad ac yn arwain at welliant

### Cefnogaeth, lles a chynnydd

- Mynediad at wasanaethau cymorth a lles
- Ansawdd y cyngor a'r arweiniad ar gyfer dysgu a gyrfaoedd yn y dyfodol
- Sut i fynegi pryder neu wneud cwyn

## Geirfa (*)

**Dysgwr:** Unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn y sector trydyddol.

**Addysg drydyddol:** i'r rhai sy'n 16 oed a throsodd gan gynnwys y chweched dosbarth mewn ysgolion, dysgu oedolion yn y gymuned, dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaethau, addysg bellach ac addysg uwch.

**Darparydd:**Sefydliad sy'n darparu eich addysg neu hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- colegau addysg bellach,
- prifysgolion,
- darparwyr hyfforddiant,
- darparwyr dysgu oedolion/cymunedol,
- y chweched dosbarth mewn ysgolion.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government